Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad

## Dadansoddiadau ychwanegol PISA 2018:

# Canlyniadau ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg

Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER)

# Dadansoddiadau Ychwanegol PISA 2018: Canlyniadau ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg

Rachel Classick, Maria Galvis and Juliet Sizmur

Cyhoeddiwyd ym mis Tachwedd 2020

Gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg,

The Mere, Upton Park, Slough, Berkshire SL1 2DQ

www.nfer.ac.uk

© 2020 Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg
Rhif Elusen Gofrestredig 313392

**ISBN: 978-1-912596-21-8**

**Sut i ddyfynnu'r cyhoeddiad hwn:**
Classick, R., Galvis, M. and Sizmur, J. (2020). *Dadansoddiadau Ychwanegol PISA 2018: Canlyniadau ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg*

# Cynnwys


Rhestr o’r ffigurau 1

Rhestr o’r tablau 2

Crynodeb Gweithredol 4

1. Cyflwyniad 6

2. Sgôr gyffredinol mewn darllen 8

3. Dosbarthiad sgorau 9

4. Lefelau hyfedredd 11

5. Sgorau'r is-raddfeydd darllen 14

5.1 Prosesau gwybyddol 14

5.2 Ffynhonnell ddarllen 15

5.3 Perfformiad mewn is-raddfeydd darllen ar draws lefelau hyfedredd PISA 17

6. Gwahaniaethau yn ôl rhyw 24

7. Cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim 26

8. Beth sy'n cael yr effaith fwyaf ar sgorau darllen PISA? 29

Cyfeiriadau 31

Atodiad A 32

Atodiad B 33

Atodiad C 34

# Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 4.1 Lefelau hyfedredd darllen mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg.......11

Ffigur 4.2 Lefelau hyfedredd darllen yn ôl yr iaith asesu.................................................11

Ffigur 4.3 Lefelau hyfedredd darllen yn ôl yr iaith a siaredir gartref ................................13

Ffigur 5.1 Dosbarthiad perfformiad ar gyfer pob is-raddfa ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg ..........................................................................................18

Ffigur 5.2 Dosbarthiad perfformiad ar gyfer pob is-raddfa ar gyfer yr iaith asesu ............19

Ffigur 5.3 Dosbarthiad perfformiad ar gyfer pob is-raddfa ar gyfer iaith a siaredir gartref 22

# Rhestr o’r tablau


Tabl 1.1 Dadansoddiad sampl yn ôl math o ysgol, yr iaith asesu a'r iaith a siaredir gartref ........ 7

Tabl 2.1 Sgôr darllen gymedrig ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg ........ 8

Tabl 3.1 Dosbarthiad sgorau darllen ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg ........ 9

Tabl 3.2 Dosbarthiad sgorau darllen yn ôl yr iaith asesu ........ 9

Tabl 3.3 Dosbarthiad sgorau darllen yn ôl yr iaith a siaredir gartref ........ 10

Tabl 5.1 Sgorau cymedrig ar gyfer pob proses wybyddol ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg ........ 14

Tabl 5.2 Sgorau cymedrig ar gyfer pob proses wybyddol yn ôl yr iaith asesu ........ 15

Tabl 5.3 Sgorau cymedrig ar gyfer pob proses wybyddol yn ôl iaith a siaredir gartref ........ 15

Tabl 6.1 Sgorau darllen cymedrig i fechgyn a merched mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg ........ 24

Tabl 6.2 Sgorau darllen cymedrig i fechgyn a merched yn ôl iaith asesu ........ 24

Tabl 6.3 Sgorau darllen cymedrig i fechgyn a merched yn ôl iaith a siaredir gartref ........ 25

Tabl 7.1 Sgorau darllen cymedrig yn ôl cymhwyster ar gyfer FSM a chyfrwng yr ysgol ........ 26

Tabl 7.2 Sgorau darllen cymedrig ar gyfer y rhai oedd yn gymwys ar gyfer FSM yn ôl iaith asesu ........ 27

Tabl 8.1 Atchweliad llinol gyda thri newidyn esboniadol: cyfrwng yr ysgol, yr iaith asesu a’r iaith a siaredir gartref ........ 29

Atodiad A.1 Sgôr darllen gymedrig yn ôl perchnogaeth ysgol (PISA 2018) ........ 32

Atodiad A.2 Sgôr darllen gymedrig yn ôl perchnogaeth ysgol ar gyfer ysgolion Saesneg a Chymraeg (PISA 2018) ........ 32

Atodiad B.1 Dadansoddiad sampl yn ôl rhyw ........ 33

Atodiad B.2 Dadansoddiad sampl yn ôl cymhwyster ar gyfer FSM ........ 33

Atodiad C.1 Dadansoddiad sampl cyfrwng ysgol yn ôl yr iaith asesu a’r iaith a siaredir gartref ..........34

## Crynodeb Gweithredol

Mae’r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn astudiaeth o gyflawniad addysgol a drefnir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Cymerodd ysgolion a disgyblion o 79 o wledydd ac economïau cyfranogol ran yn PISA 2018. Mae'r astudiaeth PISA yn digwydd bob tair blynedd ac yn archwilio perfformiad disgyblion 15 oed mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hefyd yn casglu ystod o wybodaeth gyd-destunol am gefndiroedd ysgolion a disgyblion. Mae Cymru wedi cymryd rhan yn PISA er 2006.

Mae'r adroddiad hwn yn ehangu ar ganlyniadau PISA 2018 ar gyfer Cymru (Sizmur *et al.*, 2019) trwy edrych ar y gwahaniaethau mewn perfformiad darllen rhwng:

- disgyblion a fynychodd ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg
- disgyblion a safodd yr asesiad yn Saesneg a'r rhai a safodd yr asesiad yn Gymraeg
- disgyblion a oedd yn siarad Saesneg gartref a'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn dangos:

- Roedd ychydig dros chwarter (27%) y disgyblion a gymerodd ran yn PISA 2018 yn dod o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid oedd mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg yn golygu'n awtomatig bod disgyblion yn sefyll yr asesiad PISA yn Gymraeg. Yn lle hynny, gofynnwyd i'r ysgolion a gymerodd ran benderfynu ar iaith asesu pob un o'u disgyblion a samplwyd.
- Ar gyfartaledd, cafodd disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sgorau sylweddol[1] is na'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Ar gyfartaledd, cafodd disgyblion a safodd yr asesiad yn Gymraeg sgorau sylweddol is na'r rhai a safodd yr asesiad yn Saesneg.
- Ar gyfartaledd, cafodd disgyblion oedd yn siarad Cymraeg gartref sgorau sylweddol is na'r rhai oedd yn siarad Saesneg. Fodd bynnag, oherwydd y sampl fach o ddisgyblion, dylid dehongli cymariaethau rhwng grwpiau yn ofalus.
- Gwelir y gwahaniaeth sgôr mwyaf rhwng disgyblion a safodd yr asesiad yn Gymraeg a'r rhai a safodd yr asesiad yn Saesneg o'i gymharu â'r gwahaniaethau a welir yn y ddau grŵp arall.

---

[1] Pan adroddir arwyddocâd ystadegol, mae'n dangos bod y cymedrau a gymharir yn arwyddocaol wahanol ar lefel 5%.

- Adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn y sgorau cymedrig yn nosbarthiad disgyblion ar draws lefelau hyfedredd PISA yn yr ystyr bod cyfrannau uwch o ddisgyblion sy'n gweithio islaw Lefel 2 i'w cael mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ymhlith disgyblion sy'n sefyll yr asesiad yn Gymraeg. Yn yr un modd, mae cyfrannau is o'r grwpiau hyn i'w gweld ymhlith y disgyblion uchel eu cyflawniad sy'n sgorio Lefel 5 ac uwch.
- Roedd y bwlch rhwng y rhywiau rhwng perfformiad merched a bechgyn yn debyg p'un a safodd y disgyblion yr asesiad yn Saesneg neu Gymraeg.
- Cyfran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg oedd saith y cant, ac mewn ysgolion Saesneg roedd yn 13 y cant.
- Ymhlith y rhai a safodd yr asesiad yn Gymraeg, roedd cyfran y disgyblion a oedd yn gymwys ar gyfer PYDd yn saith y cant, o'i gymharu â 12 y cant o ddisgyblion cymwys ar gyfer PYDd ymhlith y rhai a safodd yr asesiad yn Saesneg.
- Roedd y gwahaniaeth sgôr rhwng disgyblion cymwys ar gyfer PYDd a disgyblion nad oeddent yn gymwys ar gyfer PYDd yn ystadegol arwyddocaol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ond nid oedd y gwahaniaeth sgôr rhwng disgyblion cymwys ar gyfer PYDd a disgyblion nad oeddent yn gymwys ar gyfer PYDd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn arwyddocaol.
- Pan gymerir effeithiau'r tri newidyn (cyfrwng yr ysgol, yr iaith asesu a’r iaith a siaredir gartref) i ystyriaeth, yr unig un y canfuwyd ei fod yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar sgorau darllen oedd yr iaith asesu. Mae hyn yn awgrymu, felly, ei bod yn debygol bod perfformiad is ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael ei yrru gan yr iaith asesu.
- Mae hyd y testunau darllen yn aml yn hirach yn Gymraeg nag yn Saesneg ac mewn rhai cwestiynau gall y nifer geiriau fod hyd at 25% yn uwch. Gallai cymhariaeth o'r amser a gymerir i ddarllen yr asesiadau ym mhob iaith fod yn faes i'w ymchwilio ymhellach, yn enwedig mewn sefyllfa profi addasol.
- Mae angen ymchwil pellach i ddarganfod pam mae sefyll yr asesiad yn Gymraeg yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar berfformiad darllen PISA.

# 1. Cyflwyniad

Mae’r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn astudiaeth o gyflawniad addysgol a drefnir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Cymerodd ysgolion a disgyblion o 79 o wledydd ac economïau cyfranogol ran yn PISA 2018. Mae'r astudiaeth PISA yn digwydd bob tair blynedd ac yn archwilio perfformiad disgyblion 15 oed mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hefyd yn casglu ystod o wybodaeth gyd-destunol am gefndiroedd ysgolion a disgyblion. Mae Cymru wedi cymryd rhan yn PISA er 2006.

Mae'r adroddiad hwn yn ehangu ar ganlyniadau PISA 2018 ar gyfer Cymru (Sizmur *et al.*, 2019) trwy edrych ar y gwahaniaethau mewn perfformiad darllen mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg.

Dylai'r dadansoddiad a gynhwysir yn yr adroddiad hwn gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r dadansoddiad a gynhwysir yn yr adroddiad *Dadansoddiadau Ychwanegol PISA 2018: Perfformiad Rhanbarthol a pharu PISA/TGAU yng Nghymru* (Gambhir *et al.*, *2020*). Mae'r asesiadau PISA yn un set o asesiadau sy'n cael eu sefyll ar adeg benodol. Er mwyn dehongli a rhoi’r canlyniadau hyn yn eu cyd-destun yn briodol dylid eu hystyried ochr yn ochr â chyflawniadau’r disgyblion hyn a’u cyfoedion mewn arholiadau cyhoeddus ar safon TGAU.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2018-19, roedd 29 y cant (55) o'r holl ysgolion uwchradd yng Nghymru yn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog[2]. Mae Tabl 1.1. yn dangos bod ychydig dros chwarter (27 y cant) o'r 3165 o ddisgyblion a gymerodd ran yn PISA 2018 yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg[3].

Nid oedd mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg yn golygu'n awtomatig bod disgyblion yn sefyll yr asesiad PISA yn Gymraeg, gan fod sawl model o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru. Penderfynodd ysgolion a ddylai pob un o'u disgyblion a samplwyd sefyll yr asesiad PISA yn Gymraeg neu Saesneg, a'r ffactor penderfynu oedd y dylid cynnal yr asesiad yn iaith addysgu'r disgyblion. Dylid nodi y gallai dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg gynrychioli amrywiaeth o wahanol brofiadau o ran dysgu cyfrwng Cymraeg ac amlygiad i'r Gymraeg.

Yna gweinyddwyd PISA i bob disgybl yn yr iaith yr oedd yr ysgol wedi'i neilltuo iddynt. Bydd yr adroddiad hwn, felly, hefyd yn archwilio'r gwahaniaethau rhwng disgyblion a safodd y asesiad yn Gymraeg a'r rhai a safodd yr asesiad yn Saesneg. Mae Tabl 1.1 yn

[2] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Schools/Schools by local authority, region and Welsh medium type
Mae hyn yn cynnwys ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel rhai Cymraeg, Dwyieithog-AB, Dwyieithog-BB a Dwyieithog-CB a Saesneg gyda Chymraeg sylweddol.

[3] Gan gynnwys ysgolion dwyieithog.

dangos bod 15 y cant o ddisgyblion wedi sefyll yr asesiad PISA yn y Gymraeg, gan nodi bod rhai disgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi sefyll yr asesiad yn Saesneg, fel y penderfynwyd gan eu hysgol.

Bwriad rhan arall i'r adroddiad hwn oedd archwilio'r gwahaniaethau rhwng disgyblion a oedd yn siarad Saesneg a'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg gartref. Cafodd y cwestiwn '*Pa iaith ydych chi'n ei siarad gartref y rhan fwyaf o'r amser*' ei gynnwys yn yr Holiadur i Ddisgyblion[4]. Fodd bynnag, dim ond chwech y cant o'r disgyblion a atebodd yr holiadur oedd yn siarad Cymraeg gartref ac roedd pump y cant yn siarad iaith arall, ac felly dylid dehongli cymariaethau rhwng y grwpiau hyn yn ofalus.

**Tabl 1.1 Dadansoddiad sampl yn ôl math o ysgol, yr iaith asesu a'r iaith a siaredir gartref**

| Categori | Nifer y disgyblion | % y sampl wedi'i phwysoli |
|---|---|---|
| Math yr ysgol | - | - |
| Cyfrwng Saesneg | 2367 | 75 |
| Cyfrwng Cymraeg | 798 | 25 |
| Yr iaith asesu | - | - |
| Saesneg | 2707 | 85 |
| Cymraeg | 458 | 15 |
| Iaith a siaredir gartref | - | - |
| Saesneg | 2664 | 84 |
| Cymraeg | 178 | 6 |
| Iaith arall | 158 | 5 |

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

[4] Mae data ar goll ar gyfer 165 o ddisgyblion yn y sampl naill ai oherwydd na wnaethant lenwi'r Holiadur i Ddisgyblion neu oherwydd na wnaethant ateb y cwestiwn penodol hwn.

# 2. Sgôr gyffredinol mewn darllen

Yn PISA 2018, y sgôr gymedrig i Gymru mewn darllen oedd 483 (Sizmur *et al.*, 2019). Mae Tabl 2.1 yn dangos bod sgorau darllen disgyblion o ysgolion cyfrwng Saesneg, ar gyfartaledd, yn arwyddocaol[5] uwch na rhai disgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg o wahaniaeth o 43 pwynt sgôr[6].

**Tabl 2.1 Sgôr darllen gymedrig ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg**

| | Ysgolion cyfrwng Saesneg | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **Sgôr darllen gymedrig** | **495*** | **452** | 43 |

* Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'cyfrwng Cymraeg'.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Gwelwyd patrwm tebyg hefyd wrth ystyried yr iaith asesu a'r iaith a siaredir gartref, fel y dangosir yn Nhabl 2.2. Yn y ddau achos, roedd y sgorau cymedrig ar gyfer Cymraeg yn sylweddol is na'r sgorau cymedrig ar gyfer Saesneg. Roedd gwahaniaeth o 73[7] pwynt sgôr rhwng sgorau cymedrig y disgyblion a safodd asesiad darllen PISA yn Gymraeg (422) a'r rhai a safodd yr asesiad yn Saesneg (494), a gwahaniaeth o 55 pwynt sgôr[8] rhwng disgyblion a oedd yn siarad Saesneg gartref (491) a'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg (435).

**Tabl 2.2 Sgôr darllen gymedrig yn ôl yr iaith asesu a'r iaith a siaredir gartref**

| Categori | Saesneg | Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Yr iaith asesu | 494* | 422 | 73 |
| Iaith a siaredir gartref | 491* | 435 | 55 |

* Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'Cymraeg'

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

[5] Pan adroddir arwyddocâd ystadegol, mae'n dangos bod y cymedrau a gymharir yn arwyddocaol wahanol ar lefel 5%.
[6] Gweler Atodiad A am ddadansoddiad yn ôl perchnogaeth ysgol.
[7] ar ôl ystyried talgrynnu'r ffigurau
[8] ar ôl ystyried talgrynnu'r ffigurau

# 3. Dosbarthiad sgorau

Gellir archwilio lledaeniad perfformiad drwy edrych ar ddosbarthiad y sgorau ym mhob grŵp. Mae Tabl 3.1 yn dangos y sgorau a gyflawnwyd gan ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ar ganraddau gwahanol. Y 10$^{fed}$ canradd yw'r sgôr y mae'r deg y cant o ddisgyblion sy'n perfformio isaf yn gorwedd oddi tani, tra mai'r 90$^{ain}$ canradd yw'r sgôr yr oedd y deg y cant a berfformiodd uchaf yn gorwedd yn uwch na hi, ac ati. Gellir ystyried bod y sgôr ar y 50$^{ain}$ canradd hefyd yn sgôr 'canolrif', gan mai dyma'r sgôr y mae 50 y cant o ddisgyblion yn gorwedd oddi tani.

Roedd y sgorau ar bob canradd (10$^{fed}$, 25$^{ain}$, 50$^{ain}$, 75$^{ain}$ a 90$^{ain}$) yn arwyddocaol is ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg nag ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yn PISA 2018. Roedd y gwahaniaethau yn y sgorau yn debyg, ac yn amrywio o 38 pwynt sgôr ar y 90$^{ain}$ canradd i 46 pwynt sgôr ar y 25$^{ain}$ canradd. Mae hyn yn awgrymu bod y bwlch rhwng disgyblion o ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg yn gyson i raddau helaeth ar draws pob lefel gallu, yn hytrach na dod yn ehangach neu'n gulach wrth i berfformiad gynyddu.

**Tabl 3.1 Dosbarthiad sgorau darllen ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg**

| Canradd | Ysgolion cyfrwng Saesneg | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| 10$^{fed}$ | 373* | 332 | 41 |
| 25$^{ain}$ | 430* | 384 | 46 |
| 50$^{ain}$ | 495* | 450 | 45 |
| 75$^{ain}$ | 561* | 520 | 42 |
| 90$^{ain}$ | 617* | 579 | 38 |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'cyfrwng Cymraeg'.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Roedd y sgorau ar draws pob canradd hefyd yn sylweddol uwch ar gyfer disgyblion a safodd yr asesiad yn Saesneg na'r rhai a safodd yr asesiad yn Gymraeg fel y dangosir yn Nhabl 3.2. Yn wahanol i'r patrwm a welwyd ar gyfer y math o ysgol, cynyddodd maint y gwahaniaeth rhwng y ddwy iaith wrth i'r perfformiad gynyddu, o wahaniaeth o 56 pwynt sgôr yn y 10$^{fed}$ canradd i 83 pwynt sgôr ar y 90$^{ain}$ canradd.

Roedd y sgôr ar y 75$^{ain}$ canradd ar gyfer y disgyblion a safodd yr asesiad yn Saesneg (561) yn arwyddocaol uwch na'r sgôr yn y 90$^{ain}$ canradd ar gyfer disgyblion a safodd yr asesiad yn Gymraeg (532). Mae hyn yn golygu bod y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uchaf a safodd yr asesiad yn Gymraeg yn perfformio'n is na'r 25 y cant uchaf o ddisgyblion a safodd yr asesiad yn Saesneg.

**Tabl 3.2 Dosbarthiad sgorau darllen yn ôl yr iaith asesu**

| Canradd | Saesneg | Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| 10fed | 372* | 316 | 56 |
| 25ain | 430* | 364 | 66 |
| 50ain | 495* | 419 | 76 |
| 75ain | 561* | 478 | 83 |
| 90ain | 615* | 532 | 83 |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'Cymraeg'.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Mae Tabl 3.3 yn dangos bod y sgôr ym mhob canradd hefyd yn sylweddol is ar gyfer disgyblion a oedd yn siarad Cymraeg gartref na'r rhai a oedd yn siarad Saesneg. Roedd maint y gwahaniaeth yn amrywio ychydig ar draws pob canradd ond gwelwyd y gwahaniaeth lleiaf yn y 10fed canradd (43 pwynt sgôr) a gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf yn y 90ain canradd (61 pwynt sgôr).

**Tabl 3.3 Dosbarthiad sgorau darllen yn ôl yr iaith a siaredir gartref**

| Canradd | Saesneg | Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| 10fed | 366* | 323 | 43 |
| 25ain | 424* | 372 | 53 |
| 50ain | 491* | 433 | 59 |
| 75ain | 558* | 504 | 54 |
| 90ain | 614* | 553 | 61 |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'Cymraeg'.


Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

# 4. Lefelau hyfedredd

Ffordd arall o archwilio lledaeniad cyrhaeddiad yw trwy edrych ar berfformiad ar bob un o lefelau hyfedredd PISA. Mae Pennod 5 o adroddiad Rhyngwladol yr OECD (OECD, 2019b) yn darparu disgrifiadau cryno ar gyfer yr wyth lefel o hyfedredd darllen yn PISA 2018 (gweler Atodiad A1.2 o adroddiad cenedlaethol PISA Cymru 2018 (Sizmur *et al.*, 2019). Ystyrir bod disgyblion sy'n sgorio islaw Lefel 2 yn berfformwyr isel mewn darllen ac ystyrir mai'r rhai sy'n perfformio ar Lefel 5 neu uwch yw'r perfformwyr gorau (OECD, 2019b). Yn PISA 2018, roedd saith y cant o ddisgyblion yng Nghymru yn gweithio ar Lefel 5 neu'n uwch (perfformwyr uchel) ac roedd 22 y cant yn gweithio islaw Lefel 2 (perfformwyr isel).

Mae Ffigur 4.1 yn dangos cyfran y disgyblion ar y gwahanol lefelau hyfedredd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg. Roedd cyfran sylweddol uwch o ddisgyblion yn gweithio ar y lefelau hyfedredd darllen is (islaw Lefel 2) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (33 y cant[9]) nag mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (18 y cant). Yn ogystal, roedd llawer mwy o ddisgyblion yn gweithio ar y lefelau hyfedredd darllen uwch (Lefelau 5 a 6) mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (8 y cant) nag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (3 y cant).

**Ffigur 4.1 Lefelau hyfedredd darllen mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg**




Sylwer: Mae'r canrannau i gyd wedi'u talgrynnu.


Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Wrth ystyried yr iaith asesu, cafodd 45 y cant o'r disgyblion a safodd yr asesiad yn Gymraeg eu categoreiddio fel perfformwyr isel (yn gweithio islaw Lefel 2); roedd hyn yn sylweddol fwy na'r 18 y cant o berfformwyr isel a safodd yr asesiad yn Saesneg. Roedd un y cant o'r disgyblion a safodd yr asesiad yn Gymraeg yn gweithio ar Lefel 5 ac roedd

[9] ar ôl ystyried talgrynnu'r ffigurau

llai na 0.5 y cant yn gweithio ar Lefel 6. Cafodd cryn dipyn yn fwy o ddisgyblion (wyth y cant) eu categoreiddio fel perfformwyr uchel yn y grŵp a safodd yr asesiad yn Saesneg.

**Ffigur 4.1 Lefelau hyfedredd darllen yn ôl yr iaith asesu**





Sylwer: Mae'r canrannau i gyd wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Yn olaf, roedd wyth y cant o'r disgyblion a oedd yn siarad Saesneg gartref yn gweithio ar Lefel 5 neu'n uwch. Roedd hon yn gyfran sylweddol uwch nag ar gyfer y rhai a oedd yn siarad Cymraeg gartref, sef un y cant. Nid oedd unrhyw ddisgyblion a oedd yn siarad Cymraeg gartref yn gweithio ar Lefel 6. Roedd cyfran sylweddol uwch o ddisgyblion a oedd yn siarad Cymraeg gartref yn gweithio ar y lefelau hyfedredd is (39 y cant[10]) o'i gymharu â chyfran y disgyblion a oedd yn siarad Saesneg (20 y cant).

[10] ar ôl ystyried talgrynnu'r ffigurau

**Ffigur 4.2 Lefelau hyfedredd darllen yn ôl yr iaith a siaredir gartref**




Sylwer: Mae'r canrannau i gyd wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

# 5. Sgorau'r is-raddfeydd darllen

## 5.1 Prosesau gwybyddol

Nododd Fframwaith Asesu a Dadansoddol PISA 2018 (OECD, 2019a) bedair proses ddarllen y mae darllenwyr yn eu defnyddio wrth ymgysylltu â thestun. Y rhain oedd 'canfod gwybodaeth', 'dealltwriaeth', 'gwerthuso a myfyrio' a 'rhuglder darllen'. Mae Pennod 1 o adroddiad Rhyngwladol PISA 2018 (OECD, 2019b) yn darparu diffiniadau o'r prosesau hyn. Yn 2018, cafodd Cymru sgôr gymedrig o 494 ar gyfer canfod gwybodaeth, 479 ar gyfer dealltwriaeth a 492 ar gyfer gwerthuso a myfyrio (Sizmur *et al.*, 2019). Ni adroddwyd ar rugldder darllen yn yr un modd â'r tair proses arall. Am ragor o wybodaeth, gweler adroddiad Rhyngwladol PISA 2018.

Fel y dangosir yn Nhabl 5.1, sgoriodd disgyblion o ysgolion cyfrwng Saesneg, ar gyfartaledd, yn sylweddol uwch ym mhob un o'r tair proses wybyddol na disgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd y gwahaniaeth mwyaf rhwng sgorau cymedrig ar gyfer dealltwriaeth (38 pwynt sgôr) o gymharu â chanfod gwybodaeth a gwerthuso a myfyrio yr oedd ganddynt ill dau wahaniaethau o 32 pwynt sgôr.

**Tabl 5.1 Sgorau cymedrig ar gyfer pob proses wybyddol ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg**

| Proses wybyddol | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Canfod gwybodaeth | 502* | 470 | 32 |
| Dealltwriaeth | 489* | 451 | 38 |
| Gwerthuso a myfyrio | 500* | 468 | 32 |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'cyfrwng Cymraeg'.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Mae Tabl 5.2 yn dangos bod y disgyblion a safodd yr asesiad PISA yn Saesneg wedi sgorio'n arwyddocaol uwch ym mhob un o'r tair proses wybyddol na'r rhai a safodd yr asesiad yn Gymraeg, ond roedd y gwahaniaethau'n fwy na'r hyn a welwyd yn ôl y math o ysgol. Unwaith eto, gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf mewn dealltwriaeth, gyda gwahaniaeth o 67 pwynt sgôr rhwng y ddau gymedr. Roedd y gwahaniaethau pwyntiau sgôr ar gyfer canfod gwybodaeth a gwerthuso a myfyrio yn debyg, yn 54 a 57, yn y drefn honno.

**Tabl 5.2 Sgorau cymedrig ar gyfer pob proses wybyddol yn ôl yr iaith asesu**

| Ffactor gwybyddol | Saesneg | Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Canfod gwybodaeth | 502* | 448 | 54 |
| Dealltwriaeth | 489* | 422 | 67 |
| Gwerthuso a myfyrio | 500* | 443 | 57 |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'Cymraeg'.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Roedd llawer mwy o amrywiad yn y gwahaniaeth pwyntiau sgôr ar draws y tair proses wybyddol wrth ystyried yr iaith a siaredir gartref o'i chymharu â math ysgol ac iaith asesu, fel y dangosir yn Nhabl 5.3, canfod gwybodaeth a ddarparodd y gwahaniaeth lleiaf rhwng sgorau cymedrig sef 31 pwyntiau sgôr. Roedd y gwahaniaeth rhwng sgorau cymedrig ar gyfer dealltwriaeth yn fwy, sef 53 pwynt sgôr.

**Tabl 5.3 Sgorau cymedrig ar gyfer pob proses wybyddol yn ôl iaith a siaredir gartref**

| Ffactor gwybyddol | Saesneg | Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Canfod gwybodaeth | 500* | 469 | 31 |
| Dealltwriaeth | 485* | 432 | 53 |
| Gwerthuso a myfyrio | 497* | 455 | 42 |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'Cymraeg'.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

## 5.2 Ffynhonnell ddarllen

Dosbarthodd Fframwaith Asesu a Dadansoddol PISA 2018 (OECD, 2019a) destunau yn ôl y ffynhonnell, hynny yw, p'un a oedd yn cynnwys un uned neu unedau lluosog. Yn

2018, cafodd Cymru sgôr gymedrig o 480 ar gyfer testunau un ffynhonnell a 489 ar gyfer testunau aml-ffynhonnell (Sizmur *et al.*, 2019).

Mae Tabl 5.4 yn dangos bod disgyblion a fynychodd ysgol cyfrwng Saesneg wedi gwneud yn arwyddocaol well na'r rhai a fynychodd ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer testunau un ffynhonnell ac aml-ffynhonnell. Roedd maint y gwahaniaethau sgôr yn debyg ar gyfer testunau un ffynhonnell (37 pwynt sgôr) a thestunau aml-ffynhonnell (35 pwynt sgôr).

**Tabl 5.4 Sgorau cymedrig ar gyfer ffynhonnell ddarllen ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg**

| Ffynhonnell ddarllen | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Un ffynhonnell | 490* | 453 | 37 |
| Aml-ffynhonnell | 499* | 464 | 35 |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'cyfrwng Cymraeg'.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Mae Tabl 5.5 yn dangos bod gan ddisgyblion a safodd yr asesiad PISA yn Gymraeg sgorau arwyddocaol is ar gyfer testunau un ffynhonnell ac aml-ffynhonnell na'r rhai a safodd yr asesiad yn Saesneg. Roedd maint y gwahaniaeth sgôr yn debyg ar gyfer testunau un ffynhonnell (63 pwynt sgôr) a thestunau aml-ffynhonnell (60 pwynt sgôr[11]), ond yn fwy na'r gwahaniaethau a welwyd yn ôl math o ysgol ac iaith a siaredir gartref.

**Tabl 5.5 Sgorau cymedrig ar gyfer ffynhonnell ddarllen yn ôl yr iaith asesu**

| Ffynhonnell ddarllen | Saesneg | Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Un ffynhonnell | 489* | 426 | 63 |
| Aml-ffynhonnell | 499* | 438 | 60 |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'Cymraeg'.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Mae Tabl 5.6 yn dangos bod gan ddisgyblion a oedd yn siarad Saesneg gartref, ar gyfartaledd, sgorau arwyddocaol uwch na'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg. Roedd gan ddisgyblion a oedd yn siarad Cymraeg gartref sgôr gymedrig 49 pwynt sgôr yn is na'r rhai

[11] ar ôl ystyried talgrynnu'r ffigurau

a oedd yn siarad Saesneg ar gyfer testunau un ffynhonnell, a 44 pwynt sgôr yn is ar gyfer testunau aml-ffynhonnell.

**Tabl 5.6 Sgorau cymedrig ar gyfer ffynhonnell ddarllen yn ôl iaith a siaredir gartref**

| Ffynhonnell ddarllen | Saesneg | Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Un ffynhonnell | 486* | 437 | 49 |
| Aml-ffynhonnell | 495* | 451 | 44 |


*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'Cymraeg'.


Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018


## 5.3 Perfformiad mewn is-raddfeydd darllen ar draws lefelau hyfedredd PISA


Mae'r ffigurau canlynol yn dangos cyfrannau'r disgyblion ar draws yr wyth lefel hyfedredd PISA mewn darllen ar gyfer pob is-raddfa (canfod gwybodaeth, dealltwriaeth, gwerthuso a myfyrio a thestunau sengl a lluosog) ar gyfer math o ysgol, yr iaith asesu ac iaith a siaredir gartref. Mae'r patrwm yn debyg ar draws pob is-raddfa o ran lefelau hyfedredd, hynny yw, mae cyfrannau uwch o ddisgyblion ar y lefelau hyfedredd is mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfran is ar y lefelau hyfedredd uchel. Cafwyd hyd i'r un patrwm ar gyfer disgyblion a safodd yr asesiad yn Gymraeg, ac a oedd yn siarad Cymraeg gartref. Yn yr un modd â'r dadansoddiadau blaenorol, darganfuwyd y gwahaniaethau mwyaf wrth gymharu'r canlyniadau yn ôl yr iaith asesu.


**Ffigur 5.1 Dosbarthiad perfformiad ar gyfer pob is-raddfa ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg**















Sylwer: Mae'r canrannau i gyd wedi'u talgrynnu.


Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018


**Ffigur 5.2 Dosbarthiad perfformiad ar gyfer pob is-raddfa ar gyfer yr iaith asesu**












Sylwer: Mae'r canrannau i gyd wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

**Ffigur 5.3 Dosbarthiad perfformiad ar gyfer pob is-raddfa ar gyfer iaith a siaredir gartref**






Sylwer: Mae'r canrannau i gyd wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

# 6. Gwahaniaethau yn ôl rhyw

Yn PISA 2018, perfformiodd merched yn well na bechgyn mewn darllen ym mhob gwlad a gymerodd ran (OECD, 2019c). Yng Nghymru, maint y bwlch rhwng y rhywiau oedd 26 pwynt sgôr (Sizmur *et al.*, 2019), gyda sgôr gymedrig o 497 i ferched a 470 i fechgyn. Mae Tablau 6.1 i 6.3 yn dangos y gwahanol sgorau cymedrig ar gyfer bechgyn a merched yn ôl math o ysgol, yr iaith asesu a'r iaith a siaredir gartref. Mae Atodiad B.1 yn dangos cyfran y bechgyn a'r merched ym mhob categori.

Mae Tabl 6.1 yn dangos bod bwlch sylweddol rhwng y rhywiau mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg a bod y gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn fwy mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (32 pwynt sgôr o gymharu â 23 pwynt sgôr). Roedd sgorau merched a bechgyn mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn arwyddocaol uwch na'u cymheiriaid mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Er ei bod yn is, nid oedd y sgôr gymedrig ar gyfer merched o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn arwyddocaol wahanol i'r sgôr gymedrig ar gyfer bechgyn o ysgolion cyfrwng Saesneg.

**Tabl 6.1 Sgorau darllen cymedrig i fechgyn a merched mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg**

| Rhyw | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Merched | 506* | 469 | 38 |
| Bechgyn | 483* † | 437 † | 46 |
| Y bwlch rhwng y rhywiau | 23 | 32 | - |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'cyfrwng Cymraeg'.

† Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r sgôr gymedrig i ferched.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Gwelwyd bylchau rhwng y rhywiau hefyd wrth ystyried yr iaith asesu ac roeddent yn debyg p'un a oedd disgyblion wedi sefyll yr asesiad yn Saesneg neu'n Gymraeg (26[12] a 29 pwynt sgôr, yn y drefn honno).

Roedd gan ferched a bechgyn a safodd yr asesiad yn Saesneg sgorau cymedrig a oedd yn arwyddocaol uwch na'r rhai o'r un rhyw a safodd yr asesiad yn Gymraeg.

Yn ogystal, sgoriodd bechgyn a safodd yr asesiad yn Saesneg yn arwyddocaol well na merched a safodd yr asesiad yn Gymraeg. Y gwahaniaeth oedd 45 pwynt sgôr[13].

[12] ar ôl ystyried talgrynnu'r ffigurau
[13] ar ôl ystyried talgrynnu'r ffigurau

**Tabl 6.2 Sgorau darllen cymedrig i fechgyn a merched yn ôl iaith asesu**

| Rhyw | Saesneg | Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Girls | 507* | 436 | 71 |
| Boys | 482* † | 408† | 74 |
| Gender gap | 26 | 29 | - |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'Cymraeg'.

† Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r sgôr gymedrig i ferched.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Mae Tabl 6.3 yn dangos bod bwlch sylweddol rhwng y rhywiau ar gyfer y disgyblion a oedd yn siarad Saesneg gartref ac ar gyfer y rhai a oedd yn siarad Cymraeg gartref. Fodd bynnag, roedd y bwlch rhwng y rhywiau ar gyfer disgyblion a oedd yn siarad Cymraeg gartref yn amlwg yn fwy nag ar gyfer y rhai a oedd yn siarad Saesneg.

Roedd gwahaniaeth llawer mwy hefyd rhwng y bechgyn a oedd yn siarad Saesneg neu Gymraeg gartref na rhwng y merched.

Er ei bod yn is, nid oedd y sgôr gymedrig ar gyfer merched a oedd yn siarad Cymraeg gartref yn arwyddocaol wahanol i'r sgôr gymedrig ar gyfer bechgyn a oedd yn siarad Saesneg gartref.

**Tabl 6.3 Sgorau darllen cymedrig i fechgyn a merched yn ôl iaith a siaredir gartref**

| Rhyw | Saesneg | Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Merched | 502* | 458 | 44 |
| Bechgyn | 479* † | 415 † | 65 |
| Y bwlch rhwng y rhywiau | 22 | 43 | - |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'Cymraeg'.

† Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r sgôr gymedrig i ferched.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

# 7. Cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim

Y mesur cenedlaethol a ddefnyddir fel arfer i ddeall effeithiau anfantais yw cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim (FSM). Mae cymhwysedd ar gyfer FSM yn rhannu disgyblion yn ddau grŵp - y rhai sy'n gymwys a'r rhai nad ydynt yn gymwys. Yn PISA 2018, roedd gan ddisgyblion yng Nghymru nad oeddent yn gymwys i gael FSM sgôr gymedrig o 485 a'r sgôr gymedrig ar gyfer disgyblion a oedd yn gymwys i gael FSM oedd 451. Mae Atodiad B.2 yn dangos cyfran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael FSM yn ôl math o ysgol ac iaith asesu. Oherwydd y nifer fach o ddisgyblion a oedd yn siarad Cymraeg gartref ac a oedd yn gymwys i gael FSM, mae'r canlyniadau ar gyfer yr iaith a siaredir gartref wedi'u hepgor i sicrhau cyfrinachedd.

Mae Tabl 7.1 yn dangos bod gan ddisgyblion a oedd yn gymwys ar gyfer FSM mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sgorau arwyddocaol uwch (459) ar gyfartaledd na'r rhai o ysgolion cyfrwng Cymraeg (417), gyda gwahaniaeth o 42 pwynt sgôr[14]. Roedd gwahaniaeth arwyddocaol o 42 pwynt sgôr hefyd rhwng disgyblion cyfrwng Saesneg a Chymraeg nad oeddent yn gymwys ar gyfer FSM.

Er bod y gwahaniaeth pwynt 38 sgôr yn arwyddocaol rhwng disgyblion cymwys a'r rhai nad oeddent yn gymwys ar gyfer FSM mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, nid oedd gwahaniaeth tebyg o 38 pwynt sgôr rhwng disgyblion cymwys a'r rhai nad oeddent yn gymwys ar gyfer FSM mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn arwyddocaol[15]. Nid oedd y sgorau cymedrig ar gyfer disgyblion cymwys ar gyfer FSM mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a disgyblion nad oeddent yn gymwys mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn arwyddocaol wahanol.

---

[14] ar ôl ystyried talgrynnu'r ffigurau

[15] Mae gwahaniaethau yn yr arwyddocâd yn ganlyniad i wallau safonol mwy yn y grŵp cymwys ar gyfer FSM o ysgolion cyfrwng Cymraeg oherwydd y niferoedd llawer llai yn yr is-sampl honno.

**Tabl 7.1 Sgorau darllen cymedrig yn ôl cymhwyster ar gyfer FSM a chyfrwng yr ysgol**

| Cymhwyster ar gyfer FSM | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Heb fod yn gymwys ar gyfer FSM | 498* | 455 | 42 |
| Cymwys ar gyfer FSM | 459*† | 417 | 42 |
| Gwahaniaeth | 38 | 38 | - |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'cyfrwng Cymraeg'.

† Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o’r grŵp nad yw'n gymwys ar gyfer FSM.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Wrth edrych yn gyffredinol ar yr iaith asesu, roedd gan y disgyblion a safodd yr asesiad yn Gymraeg, ar gyfartaledd, sgorau is na disgyblion a safodd yr asesiad yn Saesneg.

Ar gyfer disgyblion sy'n gymwys ar gyfer FSM, hynny yw, y mwyaf difreintiedig, roedd gwahaniaeth o 80 pwynt sgôr rhwng y rhai a safodd yr asesiad yn Saesneg a'r rhai a safodd yr asesiad yn Gymraeg.

Ar gyfartaledd, roedd gan ddisgyblion cymwys ar gyfer FSM a safodd yr asesiad yn Saesneg sgorau arwyddocaol is na'r rhai nad oeddent yn gymwys ar gyfer FSM a safodd yr asesiad yn Saesneg, gyda sgorau cymedrig o 459 a 497, yn y drefn honno. Ar gyfartaledd, roedd gan ddisgyblion cymwys ar gyfer FSM a safodd yr asesiad yn Saesneg sgorau arwyddocaol uwch na'r rhai nad oeddent yn gymwys ar gyfer FSM a safodd yr asesiad yn Gymraeg, gyda gwahaniaeth o 36 pwynt sgôr[16].

[16] ar ôl ystyried talgrynnu'r ffigurau

**Tabl 7.2 Sgorau darllen cymedrig ar gyfer y rhai oedd yn gymwys ar gyfer FSM yn ôl iaith asesu**

| Cymhwyster i gael FSM | Saesneg | Cymraeg | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Heb fod yn gymwys ar gyfer FSM | 497* | 424 | 73 |
| Cymwys ar gyfer FSM | 459*† | 379† | 80 |
| Gwahaniaeth | 38 | 44 | - |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'Cymraeg'.

† Yn dangos gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp nad yw'n gymwys ar gyfer FSM.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

# 8. Beth sy'n cael yr effaith fwyaf ar sgorau darllen PISA?

Hyd yn hyn, ar draws sampl PISA yng Nghymru, mae'r adroddiad wedi dangos y canlynol:

- Ni pherfformiodd disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg cystal mewn darllen a'u cyfoedion o ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Sgoriodd y disgyblion a safodd yr asesiad yn Gymraeg yn is na disgyblion a safodd yr asesiad yn Saesneg.
- Ni pherfformiodd y disgyblion a oedd yn siarad Cymraeg gartref cystal â'r rhai a oedd yn siarad Saesneg gartref.

O'u cymryd yn unigol, gwelir bod pob un o'r tri newidyn hyn (cyfrwng yr ysgol, yr iaith asesu a'r iaith a siaredir gartref) yn cael effaith arwyddocaol ar sgorau darllen PISA. Fodd bynnag, mae'r tri newidyn yn gysylltiedig â'i gilydd[17], hynny yw, gall disgyblion arddangos dau neu dri o'r nodweddion hyn ar yr un pryd. Yn unol â hyn, gwnaethom gynnal dadansoddiad atchweliad llinol i helpu i benderfynu pa rai o'r ffactorau hyn a gafodd fwy o effaith ar berfformiad darllen.

Roedd yr atchweliad llinol yn cynnwys tri newidyn esboniadol: cyfrwng yr ysgol, yr iaith asesu a'r iaith a siaredir gartref. Cyflwynir y canlyniadau yn Nhabl 8.1.

**Tabl 8.1 Atchweliad llinol gyda thri newidyn esboniadol: cyfrwng yr ysgol, yr iaith asesu a'r iaith a siaredir gartref**

| Newidyn | Cyfernod |
|---|---:|
| Sefyll asesiad PISA yn Gymraeg | -67.1* |
| Siarad Cymraeg gartref y rhan fwyaf o'r amser | -16.9 |
| Bod mewn ysgol cyfrwng Cymraeg | -1.0 |

* Yn nodi effaith sylweddol ar y lefel 5 y cant **N = 2,482

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Pan gymerir effeithiau'r tri newidyn i ystyriaeth, yr unig un y canfuwyd ei fod yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar sgorau darllen oedd yr iaith asesu (-67.1).

[17] Gellir gweld dadansoddiad sampl cyfrwng ysgol yn ôl yr iaith asesu a'r iaith a siaredir gartref yn Atodiad C.

Mae hyn yn awgrymu, felly, ei bod yn debygol bod perfformiad is ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael ei yrru gan yr iaith asesu. Nid yw cyfrwng yr ysgol, na'r iaith a siaredir gartref yn cael effaith arwyddocaol pan ystyrir y tri newidyn ar yr un pryd.

Mae hyd y testunau darllen yn aml yn hirach yn Gymraeg nag yn Saesneg ac mewn rhai cwestiynau gall y nifer geiriau fod hyd at 25% yn uwch. Gallai cymhariaeth o'r amser a gymerir i ddarllen yr asesiadau ym mhob iaith fod yn faes i'w ymchwilio ymhellach, yn enwedig mewn sefyllfa profi addasol.

Mae'n bwysig nodi na wnaethom gynnwys yn y dadansoddiad hwn nodweddion eraill a allai hefyd ddylanwadu ar sgorau darllen fel rhyw a statws economaidd-gymdeithasol. Mae angen ymchwil pellach i ddarganfod pam mae sefyll yr asesiad yn Gymraeg yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar berfformiad darllen PISA.

# Cyfeiriadau

Gambhir, G., Dirie A. a Sizmur J. (2020) *Dadansoddiadau Ychwanegol PISA 2018: Paru PISA / TGAU yng Nghymru. Matching in Wales*. Slough: NFER

Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2019a). *PISA 2018 Assessment and Analytical Framework* (rhifyn cyfan) [ar-lein]. DOI 10.1787/b25efab8-en.

Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2019b). *PISA 2018 Results (Volume I): What Students Know and Can Do* (rhifyn cyfan) [ar-lein]. DOI 10.1787/5f07c754-en.

Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2019c). *PISA 2018 Results (Volume II): Where All Students Can Succeed* (rhifyn cyfan) [ar-lein]. DOI 10.1787/b5fd1b8f-en.

Sizmur, J., Ager, R., Bradshaw, J., Classick, R., Galvis, M., Packer, J., Thomas D. a Wheater R. (2019). *Cyflawniad pobl ifanc 15 oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2018* [ar-lein]. Ar gael: https://www.nfer.ac.uk/Achievement of 15-year-olds in Wales: PISA 2018 National Report/ [28 Hydref, 2020]

# Atodiad A

Roedd y sampl PISA sy'n genedlaethol gynrychioliadol yn cynnwys ysgolion a gynhelir a rhai annibynnol preifat.

Sgoriodd disgyblion o ysgolion annibynnol preifat, ar gyfartaledd, yn arwyddocaol uwch na rhai o ysgolion a gynhelir, fel y dangosir yn Atodiad A.1.

Fel y dengys Atodiad A.2, roedd pob un o'r ysgolion annibynnol yn rhai cyfrwng Saesneg.

**Atodiad A.1 Sgôr darllen gymedrig yn ôl perchnogaeth ysgol (PISA 2018)**

| Perchnogaeth ysgol | Nifer y disgyblion | Sgôr darllen gymedrig |
|---|---|---|
| Annibynnol preifat | 147 | 556* |
| A gynhelir | 2901 | 482 |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'a gynhelir'.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Fel y dengys Atodiad A.2, perfformiodd disgyblion o ysgolion cyfrwng Saesneg a gynhelir[18] yn arwyddocaol well hefyd na'r rhai o ysgolion cyfrwng Cymraeg a gynhelir

**Atodiad A.2 Sgôr darllen gymedrig yn ôl perchnogaeth ysgol ar gyfer ysgolion Saesneg a Chymraeg (PISA 2018)**

| - | Ysgolion cyfrwng Saesneg | | Ysgolion cyfrwng Cymraeg | |
|---|---|---|---|---|
| Perchnogaeth ysgol | Nifer y disgyblion | Sgôr darllen gymedrig | Nifer y disgyblion | Sgôr darllen gymedrig |
| Annibynnol preifat | 147 | 556 | 0 | - |
| A gynhelir | 2135 | 493* | 766 | 455 |

*Yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol o'r grŵp 'a gynhelir Cymraeg'.

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

Adroddir ar gymariaethau pellach rhwng perfformiad disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, gan gysylltu canlyniadau PISA a TGAU yn *Dadansoddiadau Ychwanegol PISA 2018: Perfformiad Rhanbarthol a pharu PISA/TGAU yng Nghymru* (Gambhir *et al.*, *2020*).

[18] Nid oes gwybodaeth am berchnogaeth ysgol ar gael ar gyfer 107 o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r cymedrau darllen yn Atodiad A yn wahanol i'r cymedrau cyffredinol a geir yng nghorff yr adroddiad hwn lle gellir cynnwys y grŵp hwn o ddisgyblion.

# Atodiad B

### Atodiad B.1 Dadansoddiad sampl yn ôl rhyw

| Categori | Merched | Bechgyn |
|---|---|---|
| Ysgolion cyfrwng Saesneg | 1175 (37%) | 1192 (38%) |
| Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 390 (12%) | 408 (13%) |
| Yr iaith asesu - Saesneg | 1335 (42%) | 1372 (43%) |
| Yr iaith asesu - Cymraeg | 230 (7%) | 228 (7%) |
| Iaith a siaredir gartref - Saesneg | 1324 (47%) | 1340 (47%) |
| Iaith a siaredir gartref - Cymraeg | 87 (3%) | 91 (3%) |

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

### Atodiad B.2 Dadansoddiad sampl yn ôl cymhwyster ar gyfer FSM

| Categori | Heb fod yn gymwys ar gyfer FSM | Cymwys ar gyfer FSM |
|---|---|---|
| Ysgolion cyfrwng Saesneg | 1910 (65%) | 278 (9%) |
| Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 711 (24%) | 60 (2%) |
| Yr iaith asesu - Saesneg | 2222 (75%) | 306 (10%) |
| Yr iaith asesu - Cymraeg | 399 (13%) | 32 (1%) |

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

# Atodiad C

**Atodiad C.1 Dadansoddiad sampl cyfrwng ysgol yn ôl yr iaith asesu a’r iaith a siaredir gartref**

| Categori | Ysgolion cyfrwng Saesneg | Ysgol cyfrwng Cymraeg |
|---|---:|---:|
| **Yr iaith asesu** | **n** | **n** |
| Saesneg | 2367 | 340 |
| Cymraeg | 0 | 458 |
| **Iaith a siaredir gartref** | **-** | **-** |
| Saesneg | 2123 | 541 |
| Cymraeg | 15 | 163 |

Ffynhonnell: Cronfa ddata a barwyd â'r cyfrifiad ysgolion PISA 2018

# Tystiolaeth o ragoriaeth mewn addysg

**© Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg 2020**

**Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu na throsglwyddo unrhyw ran o'r ddogfen hon ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw fodd, electronig, mecanyddol, llungopïo, neu fel arall, heb ganiatâd ysgrifenedig NFER ymlaen llaw.**

**The Mere, Upton Park, Slough, Berks SL1 2DQ**

**T: +44 (0) 1753 574123 • F: +44 (0) 1753 691632 • enquiries@nfer.ac.uk**

**www.nfer.ac.uk.**

**NFER ref. WPAA**

**ISBN. 978-1-912596-21-8**